## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r pedwerydd Gorchymyn Cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 ("y Ddeddf"), sy'n dod â darpariaethau penodedig o'r Ddeddf i rym o ran Cymru.

Daw erthygl 2 o'r Gorchymyn â'r canlynol i rym ar 26 Ebrill 2010:

- mae erthygl 2(a) a (b) yn dod â darpariaethau i rym sy'n diwygio pwerau gwneud rheoliadau'r awdurdod cenedlaethol priodol (Gweinidogion Cymru o ran Cymru) yn Neddf Plant 1989 ("Deddf 1989") ynghylch lletya a chynnal a chadw plant sy'n derbyn gofal;
- mae erthygl 2(c) i (d) yn dod â darpariaethau i rym sy'n galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol i wneud rheoliadau mewn perthynas â phenodiad a swyddogaethau swyddogion adolygu annibynnol (is-baragraff (c)), ymweliadau gan gynrychiolwyr yr awdurdod lleol â phlant sy'n derbyn gofal (is-baragraff (ch)) ac ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (is-baragraff (d));
- mae erthygl 2(dd) yn dod ag adran 20(3) o'r Ddeddf i rym, sy'n darparu i'r awdurdod cenedlaethol priodol wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ddynodi aelod o staff â chyfrifoldeb dros hybu cyflawniadau addysgol disgyblion sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol mewn ysgol;
- mae erthygl 2(e) yn dod â darpariaethau i rym sy'n galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol i wneud rheoliadau ynghylch hawliau i daliad o dan adran 23C(5B) o Ddeddf 1989;
- mae erthygl 2(f) yn dod â darpariaethau i rym sy'n galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol i wneud rheoliadau ynghylch yr asesiadau sy'n ofynnol at ddibenion cynnig cymorth pellach i bobl sy'n gadael gofal o dan adrannau 23B(3) neu 23CA o Ddeddf 1989;
- mae erthygl 2(ff) yn dod ag adran 23(1) o'r Ddeddf i rym, sy'n diwygio'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 28D(1) o Ddeddf 1989 fel y bydd rheoliadau o dan yr adran honno yn gallu ei gwneud yn ofynnol penodi cynghorydd personol i bobl ifanc benodol sydd o dan 25 oed;
- Mae erthygl 2(g) yn dod â darpariaethau i rym sy'n galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol i wneud rheoliadau mewn perthynas â dyletswyddau'r awdurdod lleol sy'n ymwneud â seibiannau i ofalwyr plant anabl;
- mae erthygl 2(ng) i (i) yn dod ag adrannau 27 i 29 o'r Ddeddf i rym. Mae'r adrannau hyn yn diwygio Deddf Safonau Gofal 2000 i roi pwerau a dyletswyddau ychwanegol i'r awdurdod cofrestru ynghylch safonau mewn sefyllfaoedd o ofal cymdeithasol i blant;
- mae erthygl 2(j) yn dod ag adran 33 o'r Ddeddf i rym, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch ymchwil a datganiadau gwybodaeth o dan Ddeddf 1989.